

## **DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Ardal yn yr ysgol yw'r Gorad sydd yn ganolbwynt i ddiwallu anghenion ychwanegol cyfnodau allweddol 3 a 4. Er hyn, rydym yn anelu i integreiddio disgyblion ADY bob cyfle posib yn nhermau'r cwricwlwm a'r dosbarthiadau.

\*\*\*\*\*

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion datganiad/CDU yn gyfuniad o'r isod a'r gefnogaeth yn adlewyrchu'r hyn a argymhellir yn eu datganiadau/Cynllun Datblygu Unigol Dyma fraslun yn unig.

### **DARPARIAETH UN I UN - i ddisgyblion sydd ar ddatganiad a gweithredu gan yr ysgol a mwy+ ( eithriadau yw gweithredu ysgol am dymor byr)**

- Fe all y grŵp yma gynnwys disgyblion sydd ar y tri cham a bydd hyd y ddarpariaeth yn amrywio.
- Yn aml, mae cyfuniad o anghenion a gall gynnwys cefnogaeth lefel uwch o gymorth h.y. oleiaf un wers unigol gydag uwch-gymhorthydd neu athrawes arbenigol.
- Targedir rhifedd, llythrennedd, anawsterau iaith a chyfathrebu, anghenion emosiynol ac ymddygiad.
- Mae'r sgoriau safonedig ar gyfer cefnogaeth rhifedd a llythrennedd o dan 70 hyd at 80 mewn oleiaf un agwedd gan amlaf.

### **GWERSI CRAIDD MEWN GRWPYAU BACH**

- Gall y grŵp yma gynnwys disgyblion ar weithredu ysgol gan fod y ddarpariaeth bellach yn rhan o'n darpariaeth gwahaniaethu o gyllid arferol yr ysgol. Mae disgyblion gweithredu ysgol a mwy a datganiad hefyd yn elwa o'r ddarpariaeth hwn.
- Grwpiau bach o rhwng wyth a phymtheg o ddisgyblion. Bydd y grwpiau hyn yn cael eu dysgu gan athrawon sydd yn arbenigo mewn dysgu disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol.
- Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion sydd ar weithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy/datganiad o angenrheidrwydd yn cael eu gosod mewn grwpiau llai. Gall rhai disgyblion dyslecsig, er

enghraifft, ymdopi'n dda gyda gwaith prif ffrwd, ond i'r athrawon fod yn ymwybodol o'u problemau a'u targedau.

### **Y CLYBIAU**

- Clybiau Darllen, Sillafu a Llawysgrifen i flwyddyn 7 yn ystod cyfnodau cofrestru
- Clwb Sillafu Blwyddyn 8 yn ystod cyfnodau cofrestru

### **Y CLWB GWAITH CARTREF/CLWB CwmNi**

Bron yn ddieithriad yn cynnwys disgyblion ar y gofrestr ar wahanol gamau. Cefnogaeth amser egwyl/cinio a rhai gwersi penodol.

### **ANOGWYR DYSGU ADY**

- Cefnogaeth uwch na'r hyn sy'n arferol i weddill yr ysgol.
- Tîm o uwchgymhorthyddion yn darparu yn ôl anghenion y disgyblion - eto o weithredu ysgol i ddatganiad/CDU. Y ddarpariaeth yn gallu cynnwys therapi Celf, llythrennedd, rhifedd, trefnu amser, sgiliau adolygu, sgiliau cyfathrebu a llythrennedd. Arweinydd y tîm o anogwyr dysgu sy'n cydlynu'r taflenni amser ar y cyd a'r cydlynnydd ADY.

### **DARPARIAETH AR GYFER TREFNIADAU MYNEDIAD I ARHOLIADAU**

Os oes hanes o anghenion ac asesiadau sydd yn dangos fod hanes o ddarpariaeth am amser ychwanegol mae posib gwneud cais am hwn yn unol â rheolau Byrddau Arholi.

**CEFNOGAETH LLES** - disgyblion gweithredu ysgol a mwy a datganiad / CDU yn dod dan ofal Y Gorad - i gynnal ymddygiad a lles emosiynol.

### **CYMORTHYDDION**

- Ateb i ofynion statudol ond hefyd yn targedu disgyblion gweithredu ysgol a mwy ac ysgol lle bo'r galw.

- Rôl bennaf yn y dosbarthiadau i hwyluso mynediad i'r cwricwlwm ac integreiddio yn y brif lif.

### **CEFNOGAETH ARBENIGOL/AAL**

- Seicolegwr Addysg, Athrawon Nam Golwg a Chlyw, Athrawes Arbenigol Anawsterau Iaith a Chyfathrebu, Athrawes Cefnogi Anghenion Meddygol, Therapydd Iaith, Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Ysgol, Cwnselydd yr Ysgol, Physiotherapydd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm o Amgylch y Teulu,

RYDYM YN HYBLYG YN EIN DARPARIAETH AC YN YMFALCHÏO YN EIN GALLU I YMATEB AR FRYS I ANGHENION Y DISGYBLION - AR BA BYNNAG CAM MAE'R DISGYBL SYDD ANGEN Y GEFNOGAETH.